**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**12 Medi 2016**

**DATGANIAD O GYFRIFON 2015-16**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Trysorydd dros dro i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon archwiliedig am 2015-16 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r Aelodau.

2 Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cael y dasg o sicrhau bod yr adroddiadau ariannol wedi eu harchwilio'n effeithiol, ac yn seiliedig ar eu canfyddiadau, cyflwyno argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub.

## Gwybodaeth

3 Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2010 mae'n ofynnol i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo gan yr Aelodau erbyn 30 Medi.

4 Mae hefyd yn ofynnol i'r datganiad llywodraethu blynyddol gael ei gyflwyno i'r Aelodau gyda'r datganiad o gyfrifon, a chynhwyswyd y rhain fel atodiad i'r cyfrifon. Lluniwyd y datganiad yn unol â'r egwyddorion sydd yn y fframwaith 'Delivering Good Governance in Local Government' a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), a chraffodd y Pwyllgor Archwilio arno cyn iddo gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar 20 Mehefin 2016. Ers iddo gael ei gymeradwyo mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael ei ddiwygio fymryn yn unol â'r argymhellion a wnaed gan yr Archwilwyr. Mae 4.3, 5.9, 5.10 yn baragraffau newydd a cheir newid i baragraff 12.3.

5 Cyflwynwyd adroddiad i'r Aelodau ar berfformiad ariannol am 2015-16, ac roedd hwnnw'n nodi'r gwariant gwirioneddol am y flwyddyn o'i gymharu â'r gyllideb, a cheisiwyd cymeradwyaeth yr Aelodau i neilltuo'r tanwariant i'r rhaglen cyfalaf. Craffodd y Pwyllgor Archwilio ar yr adroddiad hwn hefyd, ar 6 Mehefin 2016, cyn iddo gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

## Cronfeydd wrth Gefn

6 Mae'r cronfeydd defnyddadwy yn cynnwys y gronfa gyffredinol, cronfeydd a glustnodwyd ac incwm grant a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol. Gall yr Awdurdod ddefnyddio'r cronfeydd hyn i ariannu gwariant yn y blynyddoedd i ddod. Nid oes modd troi'r cronfeydd annefnyddadwy yn arian parod, ac maent yn cynnwys arian a neilltuwyd eisoes i ariannu gwariant; ailbrisiadau i adlewyrchu cynnydd yng ngwerth asedau; a'r gronfa bensiynau, sy'n gronfa ddiffygion.

## Newidiadau wedi Archwilio

7 Mae'r cyfrifon bellach wedi cael eu harchwilio gan yr Archwilydd a benodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac maent wedi eu diwygio yn unol â chanfyddiadau'r archwiliad.

8 Cafodd nifer o gamddatganiadau eu cywiro yn ystod yr archwiliad. Roedd y rhain yn cynnwys nifer o newidiadau o ran cyflwyniad a rhifau, a dim un ohonynt yn cael effaith ar y datganiad cynhwysfawr incwm a gwariant, y fantolen neu ar y gwariant gwirioneddol a ddigwyddodd yn y flwyddyn.

## Argymhellion yr Archwiliad

9 Caiff yr argymhellion a ddaeth gan yr Archwilwyr eu trafod yn fanwl yn y cyfarfod oherwydd ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd y rhestr gyflawn o argymhellion ar gael.

## Argymhelliad

10 Gofynnir i'r Aelodau argymell bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon archwiliedig am 2015-16.